
# Ymddiriedolaeth Cwm Elan

# Elan Valley Trust



# Cynllun Strategol 2019 - 2030



# Tabl cynnwys


| | |
|---|---|
| Am Gwm Elan | 4 |
| Amcanion | 5 |
| Map o Ystâd Cwm Elan | 7 |
| Ffeithiau a Ffigurau | 8 |
| Tir a Ffermio | 9 |
| Coetir | 11 |
| Pobl | 12 |
| Eiddo | 14 |
| Isadeiledd | 16 |
| Cyllid | 18 |
| Amgylchedd ac Etifeddiaeth | 20 |
| Ein Cynlluniau | 23 |


Chwefror 2019

# Am Gwm Elan

**Sefydlwyd Ystâd Elan** gan Adran Ddŵr Corfforaeth Birmingham trwy Ddeddf Dŵr 1892 ac 1896. Heddiw, darperir dŵr o chwe chronfa ddŵr yn Nyfrynnoedd afonydd Claerwen ac Elan. Maent yn darparu cyflenwad uniongyrchol hyd at 320 miliwn o litrau y dydd i Severn Trent Water ar hyd draphont modd disgyrchiant i Gronfa Ddŵr Frankley i'r gorllewin o Birmingham. Yn ychwanegol, caiff dŵr ei ryddhau i mewn i Afon Elan, isafon Afon Gŵy, er mwyn cynyddu'r llif yn ystod cyfnodau sych er mwyn alldyniadau pellach yn Lydbrook a Mynwy. O ganlyniad, mae'r Dyffryn yn darparu dŵr yfed hyd at 3 miliwn o gwsmeriaid Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW0) a Severn Trent Water.

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Dŵr Cymru Elan (a adweinir yn gyffredinol fel Ymddiriedolaeth Cwm Elan) ym mis Hydref 1989 yn sgil preifateiddio Dŵr Cymru Welsh Water. Creuwyd yr Ymddiriedolaeth Elusennol er mwyn sicrhau bod un o Ystadau mwyaf Lloegr a Chymru yn bod o fudd i bobl, nawr ac yn y dyfodol.



# Amcanion

**Amcanion yr Ymddiriedolaeth yw:**

- Cadwraeth, cynhaliaeth a gwella, er budd y cyhoedd, yr ardal o brydferthwch naturiol sy'n cynnwys Cwm Elan gyda'i agweddau a nodweddion naturiol (a'i anifeiliaid a'i phlanhigion).

- Rhwyddhad ac annog hygyrchedd ac astudiaeth o Gwm Elan (a'i anifeiliaid a'i phlanhigion) i'r cyhoedd.

- Darpariaeth Cwm Elan neu rhan addas ohono at bwrpas lles cymdeithasol ac at y pwrpas o wella amodau byw ar gyfer y personau sy'n elwa o'r cyfleusterau hamdden gorfforol sydd yn cael eu cynnig i'r cyhoedd at ei gilydd.

- Rhwyddhad ac annog y defnydd llawn neu rannol o Gwm Elan at fwriadau elusennol.



**Yr Ymddiriedolaeth**

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried yn fanwl sut i weithredu ar y brif asedau a'r eitemau a weinyddir, ac a rheolir o fewn dylanwad yr Ymddiriedolaeth dros y blynyddoedd a ddaw. Ein nod yw gosod safonau uchel, sicrhau ein bod yn darparu y rhain mewn modd gynaliadwu, ac i ddarparu ein Huchelgais yn effeithiol.


*Ein* ***HUCHELGAIS*** *ar gyfer Ystâd Cwm Elan yw iddo gael ei adnabod yn ryngwladol am y buddion cynaliadwy mae'n darparu ar gyfer y cyhoedd Rydym yn cyflawni hyn trwy:*


- *fod yn enghraifft batrymol o reolwyr adnodd naturiol cynaliadwy ar gyfer dalgylch dŵr yr ucheldiroedd;*
- *gwerthoedd a buddion sydd yn ganlyniad i'w dreftadaeth, cyfoeth ei natur, a llwyddiant ei bywyd cymunedol; a,*
- *rheoli safle lle gwellir iechyd, lles a dealltwriaeth pobl trwy gael profiad o'r Ystâd.*

Fe fydd Yr Ymddiriedolaeth yn darparu'r Amcanion ac Uchelgeisiau ar draws y gweithgareddau allweddol; sef Tir a Ffermio, Pobl, Eiddo, Isadeiledd, Cyllidau ac Amgylchedda Threftadaeth.


Ar gyfer pob categori rydym wedi pwyso a mesur y rhan mae'r Ymddiriedolaeth wedi ystyried, yr agweddau o'r Ystâd yr hoffwn weld yn 'cyflawni' dros y degawdau nesaf ac wedyn herio'r Uchelgais yn erbyn yr effeithiau cydnabyddedig a disgwyliedig. Fe fydd rhain yn cynnwys eitemau megis cyllidebau a Pholisi a fydd yn dylanwadu ar y ddarpariaeth. Yn y cyswllt hwn, credwn fod gennym fraslun o strategaeth gref sy'n darparu rhaglen heriol o ganlyniadau ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

# Ystâd Cwm Elan



# Ffeithiau a Ffigyrau ar gyfer 20,600 hectar Cwm Elan



- **17,400 ha wedi'u breinio yn ymddiriedolaeth Cwm Elan**
- **1,200 ha a gedwir gan DCWW**
- **2,000 ha Comin Cwmdauddwr**
- **14,550 ha ffermydd tenantiaid (71%)**
- **2,850 ha YCE mewn ffermydd llaw (14%)**
- **500 ha coetir (2%)**
- **606 ha dwr agored (3%)**

19 o dai ar gyfer preswylwyr Cwm Elan, 23 o ffermdai/ffermydd, 4 o fythynnod ar gyfer ymwelwyr, ystafell de/gwely a brecwast a 2 fwthyn.

28 o ddaliadau fferm â thenantiaid ac 8 o ddaliadau mewn-llaw a rheolir gan yr Ymddiriedolaeth. Mae'n gartref i fwy na 20,000 o ddefaid. 50 o ferlod a 100 o wartheg. Mae'r ffermydd i gyd yn rhai Glastir, cynllun amaeth-amgylchedol Llywodraeth Cymru.

5 o fwynfeydd sinc a phlwm gweigion.
Mwynfa Cwm Elan yw'r fwnynfa yn y cyflwr gorau ym Mhowys.

34 o adeiladau rhestredig.
39 o henebion rhestredig.

6 argae sy'n dal 99,499 miliwn o litrau o ddŵr. Darperir dŵr i dros 3 miliwn o bobl ac mae'r dŵr sy'n cael ei ryddhau yn cynhyrchu 4.2 megawat o drydan.

Ceir mynediad agored ar droed ar ran fwyaf o dir agored  yr Ystâd.
100 cilomedr o lwybrau tramwy dynodedig sy'n cynnwys Llwybr canoloesol y Mynachod. Mae'r 13 cilomedr o Lwybr Cwm Eln yn defnyddio'r llwybr graddiant isel hen linell reilffordd Cwm Elan.

Ceir 12 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Claerwen. Dau o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n gorchuddio 9,049 hectar o gors a choetir. Ardal Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer Adar Elenydd-Mallaen.

20 math o famaliaid a 21 math o adar ar restr 'Coch ac Ambr' (sy'n prinhau) a sy'n cenhedlu'n rheolaidd ar yr Ystâd.

Dolydd ymylol o wellt niwtral ac asidig ar yr ucheldriroedd sy'n gyfoethog mewn rhywogaethau, gan gynnwys Dôl Goronog Faesyfed. Mwsoglau, llys yr afu, rhedyn a ffwng sy'n bwysig yn genedlaethol a 7 math o degeirianau.

Yr unig Barc Wybren Dywyll yng Nghymru.



## Yr Ystâd

Ased craidd yr Ymddiriedolaeth yw'r **17,400 hectar (43,000 erw) o ardal ar yr Ystâd** sy'n freiniedg yn, ac yn cael ei weinyddu gan Ymddiriedolaeth Cwm Elan. Mae'n cwmpasu ychydig o dan 1% o holl dir Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol dros yr holl Ystâd gwreiddiol ar wahân i'r coetir ac asedau dŵr sy'n cael eu rheoli gan Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW).

Mae'n le unigryw a phrydferth ac rydym yn awyddus i sylweddoli nid yn unig ein Hamcanion trwy reoli'r Ystâd fel y gwneuthum ers ein dechreuad ym 1989, ond i ymestyn ac i wella ein gwaith. Credwn fod cyd-destun y polisi ar gyfer y gwaith hwn yn gadarnhaol; mae'n Hamcanion a'n Bwriadau yn cydsynio â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn ychwanegol, mae egwyddorion rheoli cynaliadwy adnoddau naturiol (SMNR) sy'n cael eu hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi cyd-destun defnyddiol ar gyfer cyflawni ein gwaith. Mae SMNR yn ymdrin â reolaeth gynaliadwy  ansawdd a mesurau'r dŵr, priddoedd, carbon, bioamrywiaeth, tirwedd, cymuned, iechyd a lles.

Er mwyn darparu rhain fe fyddwn yn defnyddio 'dull ecosystem'. Golyga hyn y byddwn yn rhoi prawf ar y rheolaeth bresennol ar unrhyw ran o'r Ystâd yn erbyn dulliau rheolaeth arall. Yna fe fyddwn yn asesu'r gwasanaeth(au) mae pob dull yn darparu. Gellir gwneud penderfyniad yn seiliedig ar gost a budd, Nod yr Ymddiriedolaeth a'n Hamcanion er mwyn canfod pa opsiynau gweinyddol sy'n cynnig y cydbwysedd mwyaf o ganlyniadau (gwasanaethau ecosystem). Fe fydd y dull yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r canlyniadau a wnaed gan reolaeth y gorffennol.

Yn unol â safbwynt hir-dymor yr Ymddiriedoleth fe fyddwn, yn ychwanegol, yn ceisio deall yr opsiynau rheolaeth sydd ar gael yng nghyd-destun prydles 999 mlynedd yr Ymddiriedolaeth. Fe fyddwn yn gwneud ein penderfyniadau ar sail tystiolaeth gadarn. Yn allweddol i'r dull hwn, bydd mynediad at wybodaeth a phan welwn bylchau yn ein gwybodaeth, fe fyddwn yn comisiynu'r gwaith ein hunain, neu mewn partneriaeth ag eraill er mwyn llanw'r bylchau hyn. Felly, fe fydd ymchwil gwyddonol a gwaith monitro yn thema bwysig yn ystod cyfnod y strategaeth. Fe fydd hyn yn sicrhau bod ein penderfyniadau ar reolaeth y tir o answadd dda ac yn cyflawni'n Hamcanion ac Uchelais yn ystod cyfnod pryd y disgwylir newidiadau mewn amodau economaidd a hinsoddol.

## Tir Fferm a Denantir

Mae rhyw 28 tenant yn rheoli tir yr ystâd at bwrpas ffermio. Mae'r tenantiaethau yn seiliedig ar lwybrau defaid a oedd yn bodoli yng nghyfnod Deddr Dŵr Corfforaeth Birmingham ym 1892. Ar gyfer nifer o'r tenantiaid mae eu cytundeb tenantiaeth yn cynnwys yr angen iddynt fyw ar y ffermwydd cysylltiedig. I eraill, caiff y llwybrau defaid eu rheoli ar ffermydd oddi ar yr Ystâd. Mae gan fathau o denantiaethau hŷn gytundebau Deddf Daliadau Amaethyddol ond yn fwy diweddar, mae tenantiaethau wedi'u creu fel Tenantiaethau Busnes Fferm.

Pa fydd cyfleoedd newydd i rhenti ffermydd yn codi, fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i ymdrechu i gynnig y tenantiaethau i'r rhai sydd â'u gwerthoedd yn efelychu Amcanion ac Uchelgais yr Ymddiriedolaeth. Fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda'r tenantiaid er mwyn datblygu system ffermio o natur ansawdd uchel fel modd i ddarparu'n hamcanion. Gellir cyflawni hyn trwy dermau'r cytundeb tenantiaeth a thrwy galluogi'r tenantiaid i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd. Rydym yn datblygu datganiad i'r dyfodol o'n bwriad sy'n adeiladu ar Bolisi Llywodraeth Cymru a'r DU.

Pan fo'n bosib, fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn ceisio gweithio'n rhagweithiol â thenantiaid er mwyn darparu'n Hamcanion ac Uchelgais. Mae'r prosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri Cysylltiadau Elan, ynghyd â phrosiect 2015 Cronfa Natur Corswelltyn Porffor Elenydd, yn esiamplau o ddull rhagweithiol.

## Tir Fferm a Reolir gan yr Ymddiriedolaeth

Rheolir 2850 hectar (14% o'r Ystâd) mewn-llaw. Defnyddir y dull hwn er mwyn sicrhau credadwyaeth yr Ymddiriedolaeth fel rheolwr gwybodus o Ystâd ucheldirol, ar raddfa gynildeb i staff a gweithredoedd, i gynhyrchu incwm ac i ddarparu profiad heb ei ail ar gyfer rheolwyr safleoedd cadwraeth allweddol yr Ystâd (megis y Warchodfa Natur Genedlaethol).

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y gwahanol ffyrdd  mae cyfraniadau yn cael eu gwneud i'r gymuned a'r economi trwy ffermio'r tir mewn-llaw neu drwy gynnig tenantiaeth. Disgwylir i'r flaenoriaeth bresennol sy'n bodoli ar hyn o bryd, o gadw dull sefydlog i gyfran o'r Ystâd cael ei reoli mewn-llaw, i barhau. Fodd bynnag, wrth i denantiaeth newid a chyfleoedd godi fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn adolygu'r ardal o dan reolaeth uniongyrchol er mwyn sicrhau iddi allu darparu'r Amcanion ac Uchelais yn y ffordd orau bosib. Mae da byw o dan berchnogaeth yr Ymddiriedolaeth a'r rhai sy'n cael eu rheoli yn canolbwyntio'n bennaf ar ddefaid a merlod. Rydym yn disgwyl adolygu'n polisi da byw er mwyn asesu'r cymysgiad gorau sydd angen i gwrdd â'n Amcanion ac Uchelgais. Fe fyddwn hefyd yn addasu ein dulliau wrth i ni asesu effeithiau newidiadau'r dyfodol i gefnogaeth ffermio ar yr uwchdiroedd.

**Dyma nodwedd allweddol yr Ystâd** er i ‘r rhan fwyaf o’r coetir presennol gael ei gadw a’i gynnal gan Dŵr Cymru Welsh Water (450 hectar, 90% o holl goetiroedd yr ystâd). Mae’r Ymddiriedolaeth, fodd bynnag, yn edrych i’r prosiect Gronfa Dreftadaeth y Loteri: “Gwella ein Coetireodd”, i ddarparu cynllun rheolaeth tymor hir ar draws yr Ystâd er mwyn llywio’r ffordd o feddwl am orchudd coetir newydd. Fe fydd hwn yn rhoi dyhead i wella ar dirwedd arbennig coetir Elan trwy arferion rheolaeth cynaliadwy. Fe fydd hyn yn ein harwain i gynyddu’n sylweddol y cymysgedd o lydanddail i sicrhau coetir brodorol ffyniannus. Fe fydd hwn yn cynnwys ymestyn coetir Fridd2 gyda chydweithrediad partneriaid megis Coed Cymru, sydd wedi arbrofi gyda phlannu mwy o lasbrennau aeddfed er mwyn helpu sefydlu coetir Fridd i atal rhedyn.

## Tir Tu Hwnt i Ffin yr Ystâd Wreiddiol

Ers dechreuad yr Ymddiriedolaeth, mae cyfleoedd wedi codi i ymestyn y tir o gwpas ymylon yr ystâd wreiddiol. Mae hwn wedi’i archwilio a’i geisio’n ddyfal yn yr enghreiffitau hynny ble y caniateir perchnogaeth o’r tir lle gall yr Ymddiriedolaeth gwella ar ddarpariaeth yr amcanion. O ganlyniad, mae’r Ymddiriedolaeth wedi sicrhau dylanwad dros 2,000 hectar ychwanegol o dir (Comin Cwmdauddwr).

Ar y tir hwn, mae’r Ymddiriedolaeth yn bwriadu mabwysiadu dull rheoli cyson sy’n darparu’r un amcanion craidd â’r Ystâd. Ar hyn o bryd, nid ydym yn rhagweld ymestyn perchnogaeth y tir ymellach, er bod yr Ymddiriedolwyr yn ymwybodol y gallai ychwanegiadau o ddarnau bach o dir isel gwella ar effeithiolrwydd gweithrediad ffermio’r Ymddiriedolaeth. Archwilir y dewis yn y blynyddoedd a ddaw os codir cyfleoedd.

Ym mhob achos arall, fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn edrych i gydweithio gyda rheolwyr tiroedd cyfagos mewn achosion a fydd yn fuddiol i amcanion yr Ymddiriedolaeth ar yr Ystâd. Fe fyddwn hefyd yn edrych i gefnogi eraill ble all ein rheolaeth tir a phrofiadau eraill hybu canlyniadau cadarnhaol i bobl a natur. Fe fyddwn ond yn ysytyried prynu tir ychwanegol lle na thybier bod ein dylanwad yn ddigonol i gyflawni’r canlyniadau rydym yn gweld yn angenrheidiol ac os ystyrier y cyfle yn un addas.

2 tir bryniog rhwng caeau a gweundir agored



# Pobl



## Ffermio a Thenantiaid Preswyl

Mae lles cymdeithasol a dyletswyddau cadwraeth yn gonglfaen i'n Hamcanion. Ni ellir darparu rhain heb ystyriaeth priodol i'n **ffermwyr a'n tenantiaid preswyl.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn anelu at fod yn berchennog teg ac un sydd yn gweithio'n agos ac yn ystyriol tuag at les y tenantiaid a'r trigolion. Fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod eiddo yn cael eu cadw mewn cyflwr da, gyda, lle bo'n ymarferol, ystod eang o nwyddau defnyddiol modern (gweler rhan 4 isod ar isadeiledd). Trwy ddarparu'r Amcanion, fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn ceisio cynnal a, lle'n bosibl, gwella cyfoeth economaidd yr ardal er lles y rhai sy'n byw yno.

## Ymddiriedolwyr

Fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod profiad a gwybodaeth yr Ymddiriedolwyr ynr adlewyrchu'n anghenion yr Ymddiriedolaeth yn briodol. Mae Gweithred gwreiddiol yr Ymddiriedolaeth yn nodi mai ond o rai cyrff y gall yr Ymddiriedolwyr benodi. Oherwydd treigl amser a newidiadau o fewn y cyrff y gall yr Ymddiriedolwyr cael eu penodi, mae hyn yn nawr yn fwy heriol.  Felly cytunwyd i ddefnyddio Sole Corporate Trustee; Elan Valley Limited, fel Ymddiriedolwr i Ymddiriedolaeth Cwm Elan. Mae'r newid hwn yn caniatáu hyblygrwydd wrth benodi Cyfarwyddwyr i **Elan Valley Ltd**, yr Ymddiriedolwr, sydd orau ar gyfer anghenion y dyfodol ac arbenigedd yr Ymddiriedolaeth. Gobeithir gweithredu'r newidiadau erbyn Gwanwyn 2019, â'r Ymddiriedolwyr presennol fel y Cyfarwyddwyr cyntaf. Lle dynodir bwlch sgiliau fe fydd yr Ymddiriedolaeth mewn gwell sefyllfa i'w llenwi.

## Staff

Fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn gyflogwr teg a dibynadwy i'w **Staff.**  Ceir tystiolaeth o hyn trwy trosiant isel a chofnodion cwyn, ynghyd â'r safonau Iechyd a Diogelwch, amodau a thelerau cystadleuol a dyletswydd gofal.  Mae'r Ymddiriedolaeth yn isgontractio peth o'r gwaith ar yr Ystâd ac fe fydd yn parahau i wneud hyn lle mae'n sicrhau gwerth am arian.  Ni all yr Ymddiriedolaeth weithio ar ei phen ei hun ac fe fydd yn ymdrechu i ddatblygu **Partneriaeth** cryf gyda grwpiau eraill ac unigolion er mwyn darparu ein huchelgais.  Fe fydd hefyd yn cymryd yr un dull positif er mwyn creu perthynas effeithiol gyda **rhanddeiliaid lleol.**

## Cymdogion

Fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn **gymydog da**. Fe fydd yn gwneud pob ymgais i brynu gwasanaethau a chynnyrch yn lleol er mwyn sicrhau ei bod yn cefnogi and yn hybu yr economi leol.  Fe fydd hefyd yn parhau i ddefnyddio dull talu prydlon.  Fe fydd yn datblygu perthnasau cryf gyda'i chymdogion tir cyfagos, gyda chyrff anllywodraethol a gyda Chwmnïau Dŵr sy'n gweithio yn y Cwm. Fe fydd yn gweithio trwy grwpiau, megis Cyswllt Amgylchedd Cymru, i chwarae ei ran i reoli y rhan yma o Gymru, a hefyd i helpu rhai mewn mannau eraill i hyrwyddo rheoli cynaliadwy.

## Ymwelwyr

Mae Cwm Elan yn nodedig am **groesawu ymwelwyr**. Creda'r Ymddiriedolaeth bod nifer o gyfleoedd i adeiladu ar yr etifeddiaeth yma er mwyn darparu gwell iechyd, lles, mwynhad ac addysg i bobl. Rydym hefyd yn cydnabod cyfraniad hwn i'r economi leol yn sgil y cynydd yn y nifer o ymwelwyr a'u gwariant.

Er mwyn cynorthwyo'r dyhead yma, mae'r Ymddiriedolaeth, trwy weithio fel y brif bartner ym Mhartneriaeth Cysylltiadau Elan, wedi datblgyu **Cynllun Mynediad ac Adloniant.** Y bwriad yw i helpu ymwelwyr a thrigolion i wneud y gorau o'r Ystâd tra'n diogeli'r pethau sy'n gwneud Cwm Elan mor arbennig. Mae'r cynllun yn adolygu'r ddarpariaeth mynediad ac adloniant bresennol ar yr Ystâd ac yn cynnig nifer o welliannau. Mae'r rhain yn ymdrin â gwella cyfleusterau, mwy o gyfleoedd ar gyfer dilyniant sy'n ddibynnol ar sgiliau a lefel ffitrwydd, ffyrdd newydd o gael mynediad, gwell ddehongliad o'n treftadaeth, cymorth at bwrpas i unigolion a grwpiau gyda heriau mynediad penodol a gwella ein hyrwyddo fel ein bod yn cael ein cydnabod yn ehangach yn genedlaethol ac yn ryngwladol.

Un o'r partneriaid a gefnogir gan yr Ymddiriedolaeth yw Menter Mynyddoedd Cambria. Mae'r fenter yn bwriadu hyrwyddo datbygu cynaliadwy yn yr ardal drwy ddiogelu'r traftadaeth naturiol a diwylliannol ym Mynyddoedd y Cambria ac adeiladu ar y lle fel cyrchfan i dwristiaid yn hytrach na ffordd drwodd o'r Bannau Brycheiniog i Eryri.

## Buddion Rheolaeth Gadarn ar yr Ystâd

Mae'r **gwasanaethau a ddarperir** o'r tir a reolir gan yr Ymddiriedolaeth yn effeithio ymhell dros ffin Ystâd Elan.  Er enghraifft, mae pobl i'r gorllewin o Ganolbarth Lloegr, Birmingham, Swydd Henffordd, y Forest of Dean a De-Ddwyrain Cymru i gyd yn elwa o ddigonedd o ddŵr glân.  Fodd bynnag, mae'n anhebygol eu bod yn ystyried y buddion o ganlyniad i'r rheolaeth gadarn a gyflawnir gan yr Ymddiriedolaeth a'r tenantiaid ar yr Ystâd.  Er mwyn cynyddu'r cyswllt yma fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn gweithio'n agos gyda'r cymunedau sy'n elwa er mwyn codi ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o dirwedd ac amgylchedd naturiol yr Ystâd.  Wrth wneud hyn, fe fydd yn hyrwyddo ac yn amlygu pwysigrwydd rheolaeth dda yr Ystâd a'r angen i ddiogelu ein hamgylchedd naturiol a thirwedd.  Fe fydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn sicrhau bod ein gwaith i gynnal a gwella asedau naturiol yr Ystâd yn cael ei gydnabod.

# Eiddo



## Tai
Mae gan y tai ym Mhentref Elan a nifer o'r eiddo pellennig tarddiad a chymeriad a ddaw o'u harddull a'u hoedran.  Adeiladwyd llawer gan Gorfforaeth Dinas Birmingham ochr yn ochr ag adeiladu'r argaeau ar ddechrau'r 20fed ganrif, ac felly maent yn rhan gynhenid o'r ardal.  Yn flaenorol, pan gododd y cyfle i brynu eiddo ar yr Ystâd, fe manteisiodd yr Ymddiriedolaeth. Heddiw, mae portffolio yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys 19 o dai sy'n darparu ystod o lety i'w rhentu. Mae'r eiddo nid yn unig  yn cwrdd ag anghenion lleol ond hefyd yn cadw a chynnal golwg a theimlad yr Ystâd. Fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn adolygu'n rheolaidd ei darpariaeth o dai er mwyn sicrhau ei bod yn cynorthwyo gyda'r galw am anghenion lleol rhesymol am lety i'w rhentu, ac yn helpu i gynnal tarddiad amgylchedd yr adeiladu. Fodd bynnag, nid oes cynlluniau gan yr Ymddiriedolaeth i gynyddu ei portffolio tai.

## Ffermydd
Mae diolch mawr i genedlaethau o ffermwyr sydd wedi byw a gweithio yma am y tirwedd godidog. Fe fydd rheolaeth yr Ystâd yn y dyfodol yn dibynnu ar feddiannaeth y **ffermydd** yn parhau. Fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn ymdrechu i sirchau bod y ffermydd a'r tai allan yn parhau i fod yn addas at bwrpas ac yn cwrdd ag anghenion a safonau amaethyddol modern tra hefyd yn cynnal y brodorol lleol.

## Llety Ymwelwyr
Mae annog mynediad i'r Ystâd yn golygu darparu **Llety Tymor Byr addas.** Gan fod ystod o ddarparwyr llety gwyliau lleol, mae gan yr Ymddiriedolaeth polisi o ddilyn dull cyflenwol ac yn ôl y galw ar gyfer darpariaeth  llety tymor byr. Ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal pedwar eiddo i'w rhentu ar gyfer gwyliau, busnes Gwely a Brecwast a dau fwthyn mynydd.

## Llety Gwyliau

Ar hyn o bryd mae cyfraddau meddiannaeth ar lety gwyliau'r Ymddiriedolaeth yn cwrdd neu'n uwch na'r **lefelau disgwyliedig**. Awrgryma hyn fod galw pellach am lety ar yr Ystâd.  Fe fyddwn yn gweithio gyda darparwyr eraill er mwyn gwella'r ddarpariaeth gyffredinol yn yr ardal ac yn edrych ar gyfleoedd wrth i dueddiadau newid yn y farchnad wyliau. Yn ychwanegol, fe fyddwn yn asesu'r tai ar yr Ystâd sy'n bodoli a rhai a photensial er mwyn canfod cyfleoedd am lety ychwanegol. Rydym hefyd yn awyddsu i gefnogi cynigion gan denantiaid sy'n dymuno arallgyfeirio i ddarpariaeth dwristiaeth.

Trwy Bartneriaeth Cysylltiadau Elan rydym eisioes wedi gweld yr angen i ddarparu llety rhad ar gyfer grwpiau sydd ar ymweliadau addysgol a grwpiau o ddefnyddwyr adloniadol. Mewn ymateb, rydym wedi clustnodi fferm sy'n wag ar hyn o bryd ar gyfer datbygiad er mwyn cwrdd â'r angen yma.

## Adeiladau Segur

Mae rhai **adeiladau ar yr Ystâd** sy'n wag neu heb unrhyw swyddogaeth gyfredol. Fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn ymdrechu i sicrhau na fydd yr adeiladau yn dirywio. Os gellir defnyddio'r adeiladu gyda gwelliannau fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn ymchwilio'r opsiynau. Fe fydd hwn yn cynnwys asesu a fydd yr adeiladau yn gallu llenwi bylchau yn narpariaeth llety (tymor hir neu fyr) neu at bwrpas treftadaeth a dehongli. Er Enghraifft, mae dyfodol Cwt Adeiladwyr yr Argaeau yn cael ei ysytyried oherwydd ei werth treftadaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu datblygu cynllun ar gyfer pob adeilad a safloedd segur o fewn ei phrydles.


## Safonau Llety

Mae **cyflwr a safonau'r holl eiddo a safloedd ar yr Ystâd** yn bwysig er mwyn adlewyrchu'r tirwedd ansawdd uchel, a hefyd ar gyfer lles yr ymwelwyr a'r trigolion fel ei gilydd. Mae adolygiad o holl eiddo'r Ymddiriedolaeth wedi'i wneud er mwyn nodi'u cyflwr.  Mae'r adolygiad yn cynnwys y risgiau posib megis cynhwysiad tanwydd diogel. Fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn partoi rhaglen o waith i sicrhau bod pob safle, fel isafswm, yn cwrdd â safonau Llywodraeth Cymru. Mae'r safonau hyn yn ceisio sicrhau bod pawb yng Nghymru yn byw mewn cartref o safon da o fewn cymuned ddiogel erbyn 2020[3]. Rydym hefyd eisiau sicrhau bod yr eiddo i gyd ag adnoddau effeithlon ac fe fydd, pan goda'r cyfle, yn buddsoddi i wella hôl troed eu hadnoddau ynni a naturiol.

[3]Safon Ansawdd Tai Cymreig – Gorffennaf 2008



# Isadeiledd



## Mynediad

Mae mynediad i'r Cwm ac ardal ehangach yr Ystâd yn dibynnu ar isadeiledd sydd â mynediad sy'n cael ei gynnal yn dda. I gyflawni nifer o amcanion yr Ymddiriedolaeth rhaid i ni sicrhau bod yr asedau hanfodol, ar wahân i'r rhai a rheolir gan Geredigion neu Gyngor Sir Powys, yn cael eu cadw'n ddigonol. Mae hyn yn cynnwys mynediad cerbydau, ceffylau, beiciau, cerddwyr, a phontydd; llawer ohonynt yn anghysbell ac mewn ardaloedd sensitif.

Ble bo'r angen, fe fyddwn yn cydweithio gyda chymdogion a phartneriaid i gynnal ac i agor llwybrau. Mae hyn yn cynnwys adrannau sydd oddi ar yr Ystâd, ond sy'n allweddol er mwyn sicrhau bod ymwelwyr yn gallu ymweld. Fe fydd llawer o'n gwaith yn cael ei arwain gan Gynllun Mynediad a Hamdden. Mae cynnal a gwella rhai asedau yn parhau i fod yn gostus. Mewn amgylchiadau o'r math, er enghraifft, y Bont Grog ym Mhentref Elan, fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal dewis arall cost-effeithiol megis y bont Bailey. Fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn paratoi asesiadau hir dymor o'r asedau hyn a chynllunio sut y bydd yn eu hatgyweirio neu eu disodli yn y modd mwyaf cost-effeithiol a derbyniol.

## Mynediad Anghyfreithlon a Niweidiol

Mae nifer o'r **asedau mynediad mwyaf anghysbell**, megis llwybrau ceffyl, llwybrau a thir agored, mewn perygl o fynediad anghyfreithlon gan gerbydau modur oddi ar y ffordd. Fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn cydweithio â phartneriaid ac awdurdodau lleol i wahardd y defnydd anghyfreithlon, trwy drafodaeth a chydlynu gyda cherbydau modur oddi ar y ffordd cyfreithlon, gwybodaeth glir a mesurau cydymffurfio cadarn. Bydd yr ymagwedd hon yn helpu i sicrhau bod effaith negyddol y gweithgaredd hwn yn cael ei leihau, tra'n galluogi'r cerbydau modur oddi ar y ffordd cyfreithlon i fwynhau'r amser hamdden hon yn gynaliadwy ar y ffyrdd didramwy a'r ffyrdd annosbarthedig ar yr Ystâd lle caniateir eu defnydd cyfreithiol.

## Mynediad i Wasanaethau

Un o brif nodweddion yr Ystâd yw ei natur anghysbell; ond mae hyn yn creu nifer o heriau.  Heddiw, mae rhan helaeth o'r Ystâd heb **signal ffôn symudol** ac nid oes gan lawer o'r eiddo **cyflenwad trydan**. Mae'r Ymddiriedolaeth eisiau sicrhau bod y rhai sy'n byw ar neu'n ymweld â'r Ystâd yn cael mynediad i **gyfres lawn o wasanaethau**.  Ble mae cysylltiad i wasanaethau safonol yn gost effeithiol, fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn cydweithio â'r darparwr gwasanaeth i ddarparu'r gwasanaethau. Fe fydd hefyd yn gofyn i'r Llywodraeth a chyrff statudol eraill am gefnogaeth ble bo'r angen er mwyn sicrhau gwasanaethau digonol.  Fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn ceisio datblygu cyfleoedd i ehangu darpariaeth cyflenwad trydan a lle nad yw hyn yn bosibl, fe fydd yn ymchwilio i ddewisiadau eraill megis ynni adnewyddol ymarferol. Ar adegau, megis y cynllun Pŵer Trydan Dŵr Claerwen mae'r Ymddiriedolaeth yn edrych arno ar hyn o bryd, gall datblygu cynlluniau ar raddfa fwy rhoi opsiynau ar gyfer cyflenwad trydan i eiddo sydd ar hyn o bryd yn rhy anghysbell oddi wrth gysylltiad cyflenwad trydan.

## Ynni Adnewyddol

O ran ynni adnewyddol, mae gan yr Ystâd nifer o adnoddau naturiol, megis solar, gwynt a phŵer dŵr.  Mae hyn yn rhoi cyfleoedd ynni **'adnewyddol'** i'r Ystâd a'i thrigolion.  Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y diffyg gwasanaethau trydanol a nwy a ddarperir gan y grid.  Mae cynhyrchu ynni dŵr eisoes yn nodwedd o'r holl argaeau yn nyffrynnoedd Elan a Chlaerwen, ac mae rhai o'r ffermydd wedi gosod paneli solar, tyrbinau gwynt bach a boeleri biomas ar gyfer eu defnydd eu hunain.  Mae'r Ystâd eisiau annog rhagor, gan gynnwys y posibilrwydd o ddatblygu "Canolfannau Cynhyrchu' lle gall un cynllun ddarparu ffynhonnell bŵer ar gyfer mwy nag un cartref.

Ble'n bosibl, fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn comisiynu cynlluniau ynni adnewyddol lle gallant ddarparu cyflenwadau dibynadwy i eiddo sydd heb eu cysylltu. Fe fydd hyn yn lleihau'r ddibyniaeth ar generaduron disel ac yn lleiahau ôl troed carbon yr Ystâd.  Fe fydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn cefnogi tenantiaid a thrigolion eraill i leihau ymhellach eu hôlion traed carbon a thorri eu hanghenion ynni cyffredinol.

Er gwaethaf y nifer o ffermydd gwynt a solar ledled Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth yn credu y byddai datblygiadau mawr tebyg yn tynnu'n fawr o'r harddwch naturiol sy'n allweddol i'r ardal.  O ganlyniad, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi unrhyw un o'r datblygiadau yma ar yr Ystâd.



# Ariannu



## Incwm

Mae'r **cyllid** sydd angen er mwyn darparu Amcanion ac uchelgais yr Elusen yn ddibynnol gan fwyaf ar ffermio a gweithgareddau rheoli tir. Mae hyn yn ei gwneud hi'n agored i effeithiau mympwyol taliadau cymorth rheoli tir a thaliadau nwyddau. Am y rheswm hyn mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau darbodus er mwyn sicrhau sefyllfa ariannol gadarn. Mae'r Ymddiriedolwyr yn credu bod natur hir dymor cylch gwaith yr Ymddiriedolaeth ynghyd â bregusrwydd ffrydiau incwm yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod cynnal lefel gynaliadwy yr arian wrth gefn yn ddymunol iawn.

## Buddsoddiadau

Fel y rhan fwyaf o fudiadau, mae'r Ymddiriedolaeth y edrych tuag at y farchnadoedd ariannol i sicrhau **ei buddsoddiadau**. Dros y blynyddoedd, mae'r Ymddiriedolaeth wedi creu cydbwysedd rhwng porffolio arbedion a buddsoddi ar yr Ystâd; er enghraifft, trwy berchen eiddo. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn awyddus i weld buddsoddiad cyfalaf pellach er mwyn gwella dyfodol cynaliadwy'r Ystâd. Fe ddylai hyn wella lles yr Ystâd i'r rhai sy'n byw a gweithio yma ynghyd â darparu ffrydiau incwm newydd ac amgen  ar gyfer y dyfodol.

## Risg ac Atebolrwydd

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi gosod nod tymor byr iddynt eu hunain i adolygu a datblygu Polisi Arian Wrth Gefn trwy well ddealltwriaeth o'r cydbwysedd **risg ariannol ac atebolrwydd yr Ystâd.** Fe fydd hyn yn sefydlu faint o arian wrth gefn y bydd angen ar yr Ymddiriedolaeth i gynnal a chadw tra'n darparu eglurder ar faint o arian sydd ar gael i'w hamcanion cyd-elusennol. Fe fydd ymgymryd â'r broses yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i weithio'n effeithiol tra'n cael arian digonol ar gyfer buddsoddi yn yr Ystâd. Fe fydd hwn yn gosod arian sylfaenol i alluogi costau gweithredol, digon o arian i fuddsoddi yn yr Ystâd a darpariaeth ar gyfer prosiectau mawr ysbeidiol i ddisodli asedau hen a chostus. Trwy'r gwaith hwn fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn gwella ei thryloywder ar gyllid yr Ystâd ac yn cyflawni'n well ei Hamcanion ac Uchelgais elusennol dros y tymor hir.

## Cynhyrchu Incwm Amgen

Mae'r ymddiriedolaeth yn credu y dylai cynaladwyedd hir dymor y rhan fwyaf o'i gweithgareddau fod yn hunan gyllidol yn y tymor hir. Fe fydd ambell i eithriad lle na fydd yr amcanion yn gallu cynhyrchu incwm neu'r elw a gynhyrchir yn disgyn islaw'r gost. Mewn achosion o'r math, fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn dal i sicrhau na fyddai gwariant yn tanseilio sefydlogrwydd hir dymor yr Ystâd. Wrth ysytried unrhyw fuddsoddiad ar yr Ystâd, fe ddatblygir model ariannol hir dymor ar gyfer pob cynnig fel y gellir canfod gwir effaith y buddsoddiad cyn ei gomisiynu. Fe fydd hyn yn cynnwys asesiad o aliniad y prosiectau i'r egwyddor o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

## Elw

**Mudiad dim-am-elw yw'r Ymddiriedolaeth**. Mae ond yn chwilio am ddigon o arian ar gyfer costau gweithredu hir dymor a chyfrifoldebau. O bryd i'w gilydd ceir incwm "ffawdelw" o ganlyniad i daliadau ar gyfer defnydd o'r Ystâd: incwm yn deillio o leoliadau ffilm a gweithgarwch milwrol. Bob blwyddyn, rydym yn gwahodd grwpiau lleol i amlinellu unrhyw anghenion sydd ganddynt ac wrth gydweithio â'r Ymddiriedolwyr a Thenantiaid rydym yn dyrannu'r arian. Yn y blynyddoedd diweddaraf, mae hyn wedi helpu ysgolion lleol i ymweld â'r Ystâd, cefnogi grwpiau gofal yn y gymuned lleol a chynnal prosiectau yn Rhaeadr a Chwmystwyth. Fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn parahau â'r dull yma; yn annog grwpiau i gysylltu â'r Ymddiriedolaeth gyda'u syniadau ac yn adolygu dyrannu'r arian yn flynyddol.


## Gweithio â Phartneriaid

ELAN LINKS
Pobl · Natur · Dŵr
People · Nature · Water

Mae **cyfleoedd partneriaeth** yn rhoi cyfle i ledaenu costau ac i gyflawni mwy nag y gallwn ei gyflawni ar ein pen ein hunain. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn datblygu cyfleoedd rhagweithiol naill ai'n gefnogaeth neu fel partner arweiniol sy'n helpu i gyflawni ei Hamcanion a'i Uchelgais. Enghraifft ddiweddar dda yw'r arian oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri gyda Phartneriaeth Cysylltiadau Elan. Mae'r partneriaeth yn cynnwys pedwar partner allweddol sy'n gweithio ochr yn ochr â'r Ymddiriedolaeth: Dŵr Cymru Welsh Water, Cyfoeth Naturiol Cymru, CARAD (Celf Cymunedol Rhaeadr a'r Cylch) a Tir Coed. Yma, fe fydd tua £1 miliwn o fuddsoddiad gan yr Ymddiriedolaeth yn dod â £2 miliwn yn ychwanegol dros y bum mlynedd nesaf. Yn y dyfodol, fe fydd yr Ymddiriedolaeth, trwy ddull 'Taliadau am Wasanaethau Ecosystem', yn gweithio gydag eraill i ddatblygu'r farchnad ble bydd y rhai a fydd yn elwa o'r 'gwasanaethau' a ddarperir gan yr Ystâd yn cyfrannu tuag atynt.



# Amglychedd a threftadaeth



## Natur

Mae'r Ystâd yn gyfoethog mewn **asedau naturiol** gyda nifer o rywogaethau prin o anifeiliaid, planhigion a ffwng ynghyd â chwech gwahanol math o gynefinoedd cydnabyddedig. Mae llawer o ardaloedd yr Ystâd yn Safleoedd o Gadwraeth arbennig, Ardaloedd o Warchodaeth Arbennig, Gwarchodfa Natur Genedlaethol a Safle Geoamrywiaeth Bwysig Ranbarthol. Mae'r rhan fwyaf o'r Ystâd yn cael ei warchod yn gyfreithlon trwy ddynodiad Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Mae natur ar yr Ystâd yn bwysig, i gynnal cyflenwad dibynadwy o ddŵr glân ac i ddarparu ystod o fanteision economaidd a buddion eraill i bobl, gan gynnwys ymdeimlad o ryfeddod a lle. I gydnabod hyn, a thrwy gwrdd ag amcanion yr Ymddiriedolaeth, rydym wedi datblygu **Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Elan.** Mae hyn yn nodi sut yr ydym yn cynnal a gwella asedau naturiol yr Ystâd ac yn cwrdd â'n hamcanion trwy reolaeth tir. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu'r cynllun hwn ac yn monitro ac yn adrodd yn ôl ar ei lwyddiant. Yn ychwanegol, fe fyddwn yn hyrwyddo'n dealltwriaeth o'n bywyd gwyllt trwy addysg ac ymchwil, a byddwn yn ceisio'n rhagweithiol i sicrhau bod pobl yn elwa'n economaidd (e.e. trwy eco-twristiaeth), yn gorfforol ac yn seicolegol.

## Diwylliant a Threftadaeth

Mae **treftadaeth ddiwylliannol, hanesyddol a chyn-hanesyddol** yn arwyddocaol. Er Enghraifft, mae dros 39 o Henebion Rhestredig a 34 o adeiladau rhestredig ar yr Ystâd. Mae hanes yr Ystâd yn cynnwys sut mae pobl wedi symud ar draws, byw a gweithio yng Nghwm Elan yn ystod y pum mil o flynyddoedd diwethaf. Wrth gydweithio â Phartneriaeth Cysylltiadau Elan rydym wedi comisiynu arolwg o dreftadaeth-mewn-perygl ac nawr mae gennym gynllun gweithredu er mwyn gwarchod safleoedd a nodweddion sydd fwyaf mewn perygl. Fe fyddwn yn sicrhau bod y cynllun gweithredu hwn yn mynd yn ei flaen ac fe fyddwn yn ei adolygu'r angen am fwy o arolygon yn rheolaidd.

Trwy Bartneriaeth Cysylltiadau Elan, rydym yn gweithio gyda CARAD/Amgueddfa Rhaeadr i sicrhau bod atgofion a dogfennau hanesyddol yr Ystâd ac arteffactau yn cael eu cadw, eu harchifo a'u gwneud yn hygyrch ar gyfer y dyfodol. Rydym hefyd wedi datblygu cynllun i ddehongli ein treftadaeth i gynulledifa ehangach.

Mae cysylltiadau diwylliannol rhwng yr Ystâd a'r cymunedau sydd 'ar hyd y lein bibell', sy'n elwa o'r cyflenwad dŵr o Gwm Elan tuag at Birmingham hefyd yn bwysig. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dechrau ymchwilio ac adeiladu ar hyn o fewn prosiect Cysylltiadau Elan.

## Tirwedd

Mae **tirwedd a golygfeydd** yn ased ddiffiniol yr Ystâd ac mae'r Ymddiriedolaeth eisiau eu rhannu a'u hyrwyddo. Wrth weithio trwy Bartneriaeth Cysylltiadau Elan, rydym wedi comisynu yn ddiweddar Landscape Character Action Plan (LCAP) i gefnogi'r gwaith yma. Trwy weithredu'r cynllun hwn fe fyddwn yn gwella ac yn gwarchod yr ardal trwy ei reoli'n sensitif a gofalus. Ystyrir materion megis datblygiad sensitif cyfleoedd hamdden a mynediad yn y Cynllun Mynediad a Hamdden ac maent yn cael eu hysbysebu gan yr LCAP.

## Wybren Dywyll

Mae natur anghysbell, heb ei difetha yr Ystâd yn golygu mai ychydig o ffynonellau llygredd golau a wnaed gan ddyn. Gan fantiesio ar hyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cefnogi datblygiad **Parc Wybren Dywyll Cwm Elan** sydd wedi'i ddynodi'n rhyngwladol. Fe fyddwn yn parhau i leihau llygredd golau a buddsoddi mewn eiddo, ac asedau eraill, er mwyn lleihau materion cyfredol a phosibl. Fe fyddwn yn gweithio'n agos gyda mudiadau partner i hyrwyddo'r Parc fel y gall y gymuned leol ac ymwelwyr elwa o'r wybren agored clir ar yr Ystâd. Fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn datblygu safleoedd addas o fewn yr Ystâd er mwyn i drigolion ac ymwelwyr elwa'n llawn a phrofii statws y Wybren Dywyll. Rydym hefyd yn ystyried sut gall ein llety i ymwelwyr wneud gwell ddefnydd a manteisio ar y Parc Wybren Dywyll Rhyngwladol.



## Asedau Naturiol a Gwasanaethau

**Mae asedau naturiol, megis awyr glân, dŵr, pridd a daeareg** i gyd yn nodweddion allweddol i'r Ystâd. Fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn rheoli'r Ystâd yn sensitif ac yn rhagweithiol er mwyn sicrhau bod yr adnoddau dŵr a phridd yn cael eu gwarchod a bod draeniad naturiol yn cael ei warchod. Yn yr un modd, fe fydd effaith ar reoli tir a gweithgareddau dalgylch eraill yn parhau i gael eu cynnal a'u monitro er mwyn sicrhau ein bod yn lleihau unrhyw berygl o ddirywiad yn ansawdd y dŵr.

Er enghraifft:

- fe fyddwn yn cydweithio â DCWW, Severn Trent Water a Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu cynllun i sicrhau bod ansawdd y dŵr ac adnoddau dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ar draws yr Ystâd;
- fe fyddwn yn hyrwyddo rheoli'n gweundiroedd fel y gall y dŵr ei gadw ar yr ucheldiroedd er mwyn lleihau'r risg o lifogydd i lawr yr afon ac i gynnal llif y nentydd ar adegau o law isel;
- fe fydd yr eiddo i gyd ar yr Ystâd sydd heb gyfleusterau cyflenwad carthffosiaeth yn cael system driniaeth wedi'i dylunio'n dda a'i weithredu.

Fe fyddwn hefyd yn cymryd y camau i sicrhau na fydd ein gweithgareddau yn cyfrannu at fethiant y cyrff dŵr i gwrdd â'r safonau sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Fe fyddwn yn gweithio gyda phartneriaid i wella ein hafonydd, cronfeydd dŵr a gwlyptiroedd ac yn helpu i liniaru'r effaith a achosir gan y cronfeydd dŵr; er enghraifft trwy weithio â Sefydliad Gwy ac Wysg i ail-gyflwyno graean i Afon Elan islaw argae Caban Coch er mwyn hyrwyddo silfeydd eog a brithyll.

## Pwysau ar yr Amgylchedd yn y dyfodol.

Mae effaith materion megis newid hinsawdd bellach yn cael eu derbyn. I'r Ystâd gall hwn olygu tywydd mwy stormus, cyfnodau hirach o dywydd twym a sych a gaeafau gwlypach. Mae'r Ystâd yn debygol o weld newidiadau megis cynydd mewn ansefydlogrwydd ar y llethrau, erydiad pridd, mwy o sychder, newidiadau mewn cyflwr pori, mwy o berygl tânau gwyllt a chyflwyno rhywogaeth newydd sydd ddim yn gynhenid a chlefydau.

Fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael iddi ac yn comisiynu gwaith lle bo angen, er mwyn gadael i ni gyflwyno'r dulliau rheolaeth orau i leihau'r risgau yma. Fe fydd hyn yn cynnwys camau at ddal dŵr ar yr ucheldiroedd, hyrwyddo mesurau lliniarol megis plannu coed a diogelu pridd a gweithio gyda phartneriaid a thrigolion i leihau'r risg o danau a lledaeniad o rywogaethau mewnwthiol sydd ddim yn gynhenid. Mae mesurau i leihau ôl-troed carbon o fewn yr Ystâd, a amlinellwyd yn gynharach, hefyd yn rhan o ymagwedd yr Ystâd.



# Ein Cynlluniau



## Cynlluniau Busnes

Fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn amlinellu manylion ein Strategaeth mewn Cynllun Busnes sy'n nodi'r bwriadon manwl a sut y byddwn yn eu cyflawni. Fe fydd ein llwyddiant yn cael ei fonitro'n flynyddol. Yma, fe fyddwn yn ystyried pa mor dda yw ein cynnydd a beth fydd angen newid i'n helpu ein cadw ni ar y trywydd iawn. Ynghyd â'n hadolygiad blynyddol o'n Huchelgais, rydym yn cynnig adnewyddu ein golwg strategol bob pum mlynedd.

## Ymgysylltu â'n Cynllun Strategaeth

Fe fydd ein cynllun strategaeth yn cael ei rannu gyda phartneriaid, rhanddeiliaid a'r cyhoedd ehangach i sicrhau bod ein Hamcanion a'n Uchelgais ar gyfer y cyfnod yn wybyddus. Rydym yn croesawu eich barn a'ch mewnbwn i'r ddogfen hon ac yn eich annog i ddanfon rhain atom am am ystyriaeth.

Gellir gwneud hyn drwy cysylltu â ni ar : **01597 810449** neu drwy ebost: **info@elanvalleytrust.org**.

**Fe fydd eich adborth yn ein helpu gyda'n gwaith fel y gallwn wir adlewyrchu dyheadau'r rhai sy'n gwerthfawrogi Cwm Elan.**

Ymddiriedolaeth Cwm Elan / Elan Valley Trust | Cwm Elan | ida International Dark-Sky Association – Elan Valley International Dark Sky Park – www.darksky.org | Cwm Elan Parc Wybren Dywyll | Mynyddoedd Cambrian Mountains

**Ymmdireiedolaeth Cwm Elan, Swyddfa Ystad Elan, Pentref Elan, Rhaeadr, Powys LD6 5HP.**
**Gwefan : www.elanvalley.org.uk**



Cynhyrchwyd gan

| |
|---|
| Ymddiriedolaeth Cwm Elan |
| Elan Valley Trust |